*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **19 Mawrth 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Prif Swyddog Tân 01745 535253** |
| Pwnc | **Trefniadau llywodraethu a chyllid ar gyfer ATAau yng Nghymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Gwneud yr Aelodau'n ymwybodol o'r datblygiadau yng nghynllun Llywodraeth Cymru i adolygu trefniadau cyllid a llywodraethu'r awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi bwriad clir i wneud newidiadau i drefniadau cyllid a llywodraethu presennol yr ATAau yng Nghymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y tri ATA i nodi ei bryderon ac i wahodd barn ynglŷn â sut y gellid mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr Aelodau'n gwneud y canlynol:

(i) nodi cynnwys llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ar 21 Chwefror 2018;
(ii) ei gwneud yn ofynnol i'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd weithio gyda'r ddau ATA arall yng Nghymru ar gydlynu ymateb ar y cyd; a
(iii) rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd ac am unrhyw ddatblygiadau pellach.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y mater o'r blaen, heblaw am yr adeg pryd cafodd y Papur Gwyn ei gyhoeddi yn 2017.

**CEFNDIR**

5 Mae trefniadau cyllid a llywodraethu'r Awdurdod wedi'u nodi mewn termau lefel uchel yng Ngorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995. Offeryn statudol oedd hwn, i greu'r Awdurdod a'r Gwasanaeth yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996. Mae copi o'r Gorchymyn yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r Aelodau. Mae Rhannau II i IV yn arbennig o berthnasol.

6 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*, wedi cael ei gyhoeddi ar 31 Ionawr 2017 a'i fod yn cyfeirio at drefniadau llywodraethu ac ariannol presennol yr ATAau yng Nghymru. Roedd paragraffau 4.3.2 i 4.3.5 o'r Papur Gwyn yn rhoi arwydd o fwriad Llywodraeth Cymru i adolygu'r trefniadau hynny, er mai prin oedd y manylion (Atodiad 2).

**GWYBODAETH**

7 Cyn mis Chwefror eleni, prin oedd y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r diwygio arfaethedig. Ar 15 Chwefror, cyfarfu Cadeiryddion y tri ATA yng Nghymru ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC. Yn y cyfarfod, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i nodi, yn ysgrifenedig, ei bryderon ynghylch y trefniadau cyllid a llywodraethu presennol ac i wahodd y tri ATA i gyfrannu at ddeialog ynglŷn â sut y gellid mynd i'r afael â'r pryderon hynny. Yna, ysgrifennodd Mr Davies yn yr un termau yn union at Gadeiryddion y tri ATA ar 21 Chwefror 2018 ac mae copi o'r llythyr yn Atodiad 3.

8 Mae Cadeiryddion y tri ATA yng Nghymru eisoes wedi cytuno mai ymateb ar y cyd i lythyr Ysgrifennydd y Cabinet yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen. Bydd yr ymateb wedi cael ei ddatblygu erbyn y cyfarfod y cyfeirir ato yn y paragraff diwethaf ond un yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet.

9 Efallai y bydd yr Awdurdod yn dymuno ffurfio barn ynglŷn â chyfranogiad yr Aelodau yn ehangach yn y gwaith o ddatblygu'r ymateb, o ystyried bod yr amserlenni a awgrymwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn dynn iawn. Ar hyn o bryd, argymhellir bod yr Aelodau'n cael gwybodaeth fel y bo'n briodol ynglŷn â hynt y mater hwn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim, ar hyn o bryd. |
| Cyllideb | Byddai newid trefniadau ariannol a llywodraethu'r Awdurdod yn gallu effeithio ar sefyllfa cyllideb yr Awdurdod yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, ni chyllidebwyd ar gyfer unrhyw gyngor cyfreithiol a allai fod angen. |
| Cyfreithiol | Mae materion cyfreithiol posibl yn bodoli mewn perthynas â newid, neu ddiddymu, Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995. Efallai y bydd angen cyngor cyfreithiol yn y dyfodol. |
| Staffio | Dim, ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim, ar hyn o bryd. |
| Rigiau | Mae'n bosibl y bydd unrhyw newid yn nhrefniadau llywodraethu ac ariannol yr Awdurdod yn effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau priodol i'r gymuned yng Ngogledd Cymru, yn enwedig os bydd effaith negyddol ar sefyllfa'r gyllideb. |